# Cod Ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



# Helo

**Dylai pawb gael bywyd iach a hapus yn llawn cyfleoedd. Weithiau, mae pobl angen ychydig o help a chefnogaeth gyda hyn.**

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth mawr ac yn gwneud llawer o bethau gwahanol. Maen nhw'n helpu pobl o bob oed i gadw'n iach ac yn eu cefnogi i fyw bywyd mor foddhaus â phosibl.

Gwyliwch y clip hwn am ofal cymdeithasol:
youtube.com/watch?v=KQ5y0VxOtgo



# Ni yw Gofal Cymdeithasol Cymru

- **Rydyn ni am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru.**
- **Rydyn ni am sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn rhoi'r cymorth gorau posibl i bobl, pan fyddan nhw ei angen.**

**Felly, mae gennym ni a a gwerthoedd pwysig i lywio sut y dylai pobl sy'n gweithio mewn gofal ymddwyn a gwneud eu gwaith. Yr enw ar y rhain yw Codau Ymarfer.**

### Rydym ni wedi diweddaru ein Cod Ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r cod hwn yn ei gwneud yn glir beth mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol ei wneud.

Mae'n gadael i chi wybod beth allwch chi ei ddisgwyl gan y gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n eich cefnogi.

### Rydym ni hefyd wedi diweddaru ein Cod Ymarfer ar gyfer cyflogwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r cod hwn yn sicrhau bod pob gweithiwr gofal cymdeithasol:

- yn ddiogel i weithio a gofalu am bobl
- yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir
- yn cael y gefnogaeth gywir gan eu cyflogwyr.

**Mae'r codau yn gweithio gyda'i gilydd, ond mae hwn yn canolbwyntio ar y Cod Ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.**

# Pam mae'r cod yn bwysig

**Efallai na fyddwch chi'n meddwl llawer o 'godau ymarfer', mae llawer o bobl yr un fath! Ond maen nhw'n bwysig mewn gwirionedd. Maen nhw'n nodi sut y dylai gweithwyr gofal weithredu pan fyddant yn eich cefnogi chi neu rywun rydych chi'n poeni amdano.**



**Pan fydd gweithwyr yn dilyn y cod, gallwch ddisgwyl cael eich trin yn deg, yn ddiogel a gyda pharch.**

**Dyma sut mae hynny'n edrych mewn bywyd go iawn:**

- **Rydych chi'n cael eich trin yn gyfartal, beth bynnag fo'ch cefndir, eich hunaniaeth, neu eich credoau.**
- **Mae pobl yn agored ac yn onest gyda chi.**
- **Rydych chi'n teimlo'n ddiogel ac yn cael eich cefnogi i wneud dewisiadau.**
- **Gallwch siarad os nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn.**
- **Mae gweithwyr yn cadw eich gwybodaeth yn breifat, oni bai bod angen ei rhannu i'ch amddiffyn.**
- **Gallwch ymddiried mewn gweithwyr i weithredu'n broffesiynol - yn bersonol ac ar-lein.**
- **Rydych chi'n cael eich trin yn garedig ac mae eich safbwyntiau'n cael eu parchu.**

Dywedodd pobl ifanc sy'n cael gofal cymdeithasol:

"Mae'n dda gwybod bod yna reolau sy'n gwneud yn siŵr bod pobl wir yn gwrando arnom ni."

"Rwy'n hoffi ei fod yn ymwneud â pharch - nid ticio blychau'n unig."

# Pa fathau o weithwyr sy'n dilyn y cod?

Mae llawer o lefydd sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol — awdurdodau lleol, y GIG, cwmnïau preifat, sefydliadau ac elusennau. Dyma rai enghreifftiau o weithwyr gofal cymdeithasol a'r hyn maen nhw'n ei wneud.

**Mae mwy na 60,000 o weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Rydyn ni am sicrhau eu bod nhw i gyd yn rhoi'r gofal gorau posibl i bobl.**

Helo Hugh ydw i, rwy'n gweithio mewn cartref gofal i bobl ifanc. Rwy'n sicrhau bod ganddyn nhw bopeth maen nhw ei angen. Rydw i bob amser yma i siarad â nhw pan fyddan nhw fy angen.

**Gweithiwr gofal preswyl**

Helo Elen ydw i, rwy'n ymweld â phobl ag anabledd yn eu cartref. Rwy'n eu helpu gyda phethau ymarferol fel gwisgo, siopa a glanhau fel y gallant fyw'n annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd.

**Gweithiwr gofal cartref**

Helo Yesin ydw i, rwy'n sicrhau bod plant sydd mewn perygl o niwed yn ddiogel ac yn derbyn gofal yn y ffyrdd cywir.

**Gweithiwr Cymdeithasol**

Helo Caron ydw i, rwy'n gweithio fel rhan o dîm o weithwyr proffesiynol sy'n darparu gofal a chymorth i bobl hŷn sy'n byw mewn cartref gofal.

**Gweithiwr cartref gofal i oedolion**

Helo Gwion ydw i, rwy’n rheoli cartref gofal i blant. Rwy’n gyfrifol am sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn ffynnu. Rwyf hefyd yn gwneud yn siŵr bod staff wedi’u hyfforddi’n dda ac yn rhoi’r cymorth cywir i’r plant.

**Rheolwr gofal cymdeithasol**



# Beth sydd yn y cod?

Mae'n nodi safonau clir ar gyfer sut mae'n rhaid i bobl sy'n gweithio mewn gofal ymddwyn a sut maen nhw'n gwneud eu gwaith.

Mae'r cod yn defnyddio iaith broffesiynol oherwydd ei bod yn ddogfen gyfreithiol mae'n rhaid i weithwyr gofal ei dilyn. Does dim rhaid i chi wybod pob rhan ohono - ond mae'n dda deall beth maen nhw'n ei gwmpasu.

## Mae saith safon. Mae'r rhain yn ymwneud â:

1. gweithwyr yn parchu barn a hawliau pobl.
2. gweithwyr yn adeiladu ymddiriedaeth a bod yn rhywun y gall pobl fod â hyder ynddo.
3. gweithwyr yn hyrwyddo lles a diogelwch pobl.
4. gweithwyr yn cadw pobl yn ddiogel.
5. gweithwyr yn gweithredu mewn ffyrdd y gall y cyhoedd ymddiried ynddynt a'u gallu i wneud eu gwaith.
6. gweithwyr yn gwella eu sgiliau ac ansawdd y gofal maen nhw'n ei roi i bobl.
7. rheolwyr ac arweinwyr yn cymryd cyfrifoldeb a gwneud yn siŵr bod staff yn dilyn y cod.



# Beth os nad yw gweithwyr yn dilyn y cod?

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr gofal yn gwneud gwaith gwych, gyda charedigrwydd a pharch - ond os nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn, mae'n iawn dweud hynny.

Os ydych chi byth yn teimlo'n anghyfforddus neu'n anhapus am y ffordd mae rhywun yn ymddwyn, does dim rhaid i chi ddelio â hynny ar eich pen eich hun.



Gallwch:

- Siarad â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo - fel athro, gweithiwr ieuenctid, ffrind, neu aelod o'r teulu.
- Siarad â rheolwr y gweithiwr gofal neu arweinydd tîm.
- Cysylltu â'r sefydliad sy'n darparu eich gofal neu'ch cefnogaeth.

Os ydych chi'n dal i bryderu, gallwch gysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae siarad yn helpu i'ch cadw chi ac eraill yn ddiogel - ac mae hefyd yn helpu gweithwyr i ddeall sut mae cefnogaeth dda yn edrych o'ch safbwynt chi.

## Diolch am ddarllen hwn

Trwy ddeall ychydig am y cod, rydych chi'n gwybod mwy am sut y dylai gofal da edrych a theimlo - a beth allwch chi ei ddisgwyl gan y bobl sy'n eich cefnogi.

Os hoffech wybod mwy, neu ddarllen y cod llawn, gallwch ymweld â gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

gofalcymdeithasol.cymru